# Cyfarfodydd diweddar ein Bwrdd

Crynodeb o'r eitemau a drafodwyd yng nghyfarfodydd diweddar ein Bwrdd.

Cyhoeddwyd gyntaf: 20 Ebrill 2023

Diweddariad olaf: 12 Gorffennaf 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-bwrdd/cyfarfodydd-diweddar-ein-bwrdd am y fersiwn diweddaraf.

Crynodeb o'r eitemau a drafodwyd yng nghyfarfodydd diweddar ein Bwrdd.

## Munudau cyfarfodydd Bwrdd diweddar

Munudau cyfarfod Bwrdd cyhoeddus 14.03.2024

DOCX 179KB

Munudau cyfarfod Bwrdd cyhoeddus 01.02.2024

DOCX 185KB

Munudau cyfarfod Bwrdd cyhoeddus 26.10.2023

DOCX 194KB

Munudau cyfarfod Bwrdd cyhoeddus 20.07.2023

DOCX 196KB

Munudau cyfarfod Bwrdd cyhoeddus 04.05.2023

DOCX 168KB

Munudau cyfarfod Bwrdd cyhoeddus 02.02.2023

DOCX 194KB

## Dyddiad y cyfarfod: 2 Chwefror 2023

Ymhlith yr eitemau cafodd eu trafod yn ystod y cyfarfod oedd:

- **adroddiad cynnydd ein cynllun busnes** – Cymeradwyodd y Bwrdd y cynnydd rydyn ni wedi’i wneud ar ôl naw mis yn erbyn ein cynllun busnes 2022 i 2023
- **ein rôl yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol** – Trafododd y Bwrdd y gwaith rydyn ni’n gwneud tuag at Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol
- **ein cynllun busnes drafft 2023 i 2024** – Cytunodd y Bwrdd na ddylid cynyddu ffioedd cofrestru y flwyddyn nesaf a dirprwyodd gymeradwyaeth i’r cynllun busnes i’r Cadeirydd a’r Prif Weithredwr
- **ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i reolau gradd gwaith cymdeithasol** - cymeradwyodd y Bwrdd ymgynghoriad ar newidiadau i'r rheolau
- **strwythurau pwyllgor a chylch gorchwyl** – cymeradwyodd y Bwrdd gylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Pwyllgor Rheoleiddio a Safonau a’r Pwyllgor Chydnabyddiaeth. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Gwella ystyried y cylch gorchwyl yn ei gyfarfod ym mis Mawrth.

## Dyddiad y cyfarfod: 20 Hydref 2022

Ymhlith yr eitemau cafodd eu trafod yn ystod y cyfarfod oedd:

- **cyfarfod atebolrwydd** – Roedd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol yn bresennol ar gyfer y cyfarfod atebolrwydd blynyddol. Roedd y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol hefyd yn bresennol
- **adroddiad cynnydd ein cynllun busnes** – Cymeradwyodd y Bwrdd y cynnydd rydyn ni wedi’i wneud ar ôl chwe mis yn erbyn ein cynllun busnes 2022 i 2023
- **cylchlythyr grant Rhaglen Datblygu’r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru** - cymeradwyodd y Bwrdd y cylchlythyr grant ar gyfer 2023 i 2024 ar

ôl trafod ac awgrymu newidiadau iddo

- **ein hadroddiad effaith 2021 i 2022** – Trafododd y Bwrdd yr adroddiad. Cytunwyd y byddai’r Cadeirydd a’n Prif Weithredwr yn cynnal sgyrsiau pellach ynglŷn a sut i oresgyn dau fater a ddaeth i’r amlwg yn ystod y drafodaeth
- **ein hadroddiad cydraddoldeb blynyddol 2021 i 2022** – Cymeradwyodd y Bwrdd yr adroddiad, sy’n amlygu ein hymagwedd at gydraddoldeb ac amrywiaeth.

## Dyddiad y cyfarfod: 21 Gorffennaf 2022

Ymhlith yr eitemau cafodd eu trafod yn ystod y cyfarfod oedd:

- **adroddiad cynnydd ein cynllun busnes** – Cymeradwyodd y Bwrdd y cynnydd rydyn ni wedi’i wneud ar ôl tri mis yn erbyn ein cynllun busnes 2022 i 2023
- **ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon drafft 2021 i 2022, adroddiad archwilio cyfrifon a llythr rheoli** – Cymeradwyodd y Bwrdd ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon drafft, a’r adroddiad archwilio cyfrifon
- **adroddiad sicrwydd blynyddol cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg** – Cymeradwyodd y Bwrdd yr adroddiad, sy’n rhoi trosolwg o waith y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystod 2021 i 2022
- **newidiadau i'n rheolau cofrestru ac addasrwydd i ymarfer** – Cymeradwyodd y Bwrdd newidiadau i'r rheolau ar gyfer ein prosesau rheoleiddio
- **adroddiad adolygiad cyflog cyfartal 2022** – Nododd a thrafododd y Bwrdd yr adroddiad, na ddaeth o hyd i unrhyw dystiolaeth o wahaniaethu o ran gyflog yn seiliedig ar nodweddion gwarchodedig y sefydliad.

Eisiau gwybod mwy?

Cysylltwch â llinos.bradbury@socialcare.wales os hoffech gopi llawn o’r papurau ar gyfer cyfarfod sydd wedi digwydd yn barod, neu un sydd i ddod.